

## Newyddlen demograffeg Llywodraeth Cymru, Medi 2019

### Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2018

Cyhoeddwyd amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 o boblogaeth gwledydd y DU ar 26 Mehefin 2019 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

[Amcangyfrif canol blwyddyn 2018 o boblogaeth Cymru](#) oedd 3,139,000; cynnydd o 0.4 y cant (13,500) ar amcangyfrif canol 2017. Amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw yng Nghymru (652,000) na phlant 0 i 15 oed (563,000).

[Amcangyfrif canol blwyddyn 2018 o boblogaeth y DU](#) oedd 66,436,000; cynnydd o 0.6 y cant o gymharu ag amcangyfrif canol 2017 (y gyfradd twf hon yw'r isaf ers canol 2004).

Am y bumed flwyddyn yn olynol, roedd mudo net (275,000) yn fwy o sbardun ar gyfer newid yn y boblogaeth na newid naturiol (121,000). Yn y flwyddyn hyd at ganol 2018, gwelwyd cynnydd mewn mudo rhyngwladol tra oedd gostyngiad mewn newid naturiol yn y boblogaeth (y cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau).

Mae'r [data ar gael](#) yn ôl ardal weinyddol, oedran, rhyw a chydannau newid yn y boblogaeth, gan gynnwys mudo mewnol.

### Amcanestyniadau is-genedlaethol o boblogaeth Cymru ar sail 2017

Mae'r [amcanestyniadau is-genedlaethol o boblogaeth Cymru ar sail 2017](#), a oedd i gael eu cyhoeddi fis Awst 2019, nawr wedi cael eu gohirio oherwydd oedi cyn cael rhywfaint o'r data a oedd yn ofynnol i gyfrifo'r amcanestyniadau. Byddant yn cael eu cyhoeddi yn awr yn ystod hydref 2019. Bydd dyddiad pendant yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw, a hynny cyn gynted â phosibl, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

### Amcanestyniadau cenedlaethol o boblogaeth y DU ar sail 2018

Bydd yr [amcanestyniadau cenedlaethol o boblogaeth y DU ar sail 2018](#) yn cael eu cyhoeddi ar 21 Hydref 2019.

### Mudo rhyngwladol hirdymor

Ar 21 Awst 2019, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei [hymchwil](#) ar gydlyniaeth ffynonellau data ar fudo, gan gynnwys yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol a'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, ochr yn ochr â ffynonellau data gweinyddol eraill. Ar sail y canfyddiadau hyn,

maent wedi gwneud addasiadau cychwynnol i'r prif fesurau yn yr Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo, a hynny er mwyn cynnal yr asesiad gorau posibl o dueddiadau mudo. Wrth i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol drawsnewid, maent wedi aileni eu hystadegau mudo yn *ystadegau arbrofol*, i ategu'r cyfnod hwn o ddatblygu ac arloesi, yn unol â chanllawiau gan y [Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#).

Ar 22 Awst, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei [Hadroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#) diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019. Mae'n dwyn ynghyd ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan Swyddfa Gartref y DU, Adran Gwaith a Phensiynau y DU a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi cyhoeddi cyfres o ddatganiadau sy'n gysylltiedig ag ystadegau ar fudo yn rhan o'i rhaglen drawsnewid ar gyfer y system ystadegau mudo a phoblogaeth.

- [Trawsnewid y system ystadegau mudo a phoblogaeth: trosolwg](#)
- [Mudo rhyngwladol a'r gweithlu gofal iechyd](#)
- [Y llafurlu mudol yn y diwydiant twristiaeth](#)
- [Mudo Rhyngwladol Byrdymor ar gyfer Cymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2017](#)

## Data ar y Gymraeg

Ar 18 Mehefin 2019, cyhoeddwyd [prif ganlyniadau](#) Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19, a oedd yn cynnwys [data ar y Gymraeg](#).

Ar 20 Mehefin, cyhoeddwyd canlyniadau'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth \(APS\)](#) ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2018 hyd at fis Mawrth 2019 ar ein gwefan.

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2019-21 bellach yn mynd rhagddo. Bydd y canlyniadau dros dro ar gyfer y 9 mis cyntaf o waith maes ar gael yn ystod hydref 2020.

## Manylion Cyswllt

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: [ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru)